# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2010 (2:00pm)

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd O Glyn Jones - Cadeirydd<br>Cynghorydd Selwyn Williams - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; E.G.Davies; Lewis Davies; Barrie Durkin; Jim Evans; K.Evans,C.Ll.Everett; P.M.Fowlie,D.R.Hughes; Fflur M.Hughes; K.P.Hughes; R.Ll.Hughes; W.I.Hughes; Eric Jones; G.O.Jones; H.Eifion Jones;Raymond Jones;R.Dylan Jones;A.Morris Jones;R.Ll.Jones;C.McGregor; Rhian Medi;Bryan Owen; J.V.Owen; R.L.Owen; R.G.Parry OBE; G.O.Parry MBE; Eric Roberts; G.W.Roberts OBE, Peter S. Rogers, J.Arwel Roberts; E.Schofield; Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Interim;<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid);<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylcheddol a Gwasanaethau Technegol);<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden);<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol);<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro;<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi);<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro;<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor:<br>Swyddog Cyfathrebu |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T.Lloyd Hughes, W.T.Hughes, T.Jones, H.W.Thomas, J.Penri Williams. |

**Agorwyd y cyfarfod gyda Gweddi gan y Cynghorydd K.P. Hughes.**

## 1 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 24 Chwefror, 2010 (Ymweliad y Gweinidog)
- 4 Mawrth, 2010, yn amodol ar i enw'r Cynghorydd D.R. Hughes gael ei ychwanegu at y rhestr o Aelodau oedd yn bresennol.

Materion yn codi -

Eitem 10 (CH) Cadeirio'r Prif Bwyllgor Sgriwtini

Roedd y Cynghorydd W.J. Chorlton am herio'r cofnod ynglyn â'r hyn oedd wedi cael ei ddweud gan y Cynghorydd B. Owen, oherwydd nad oedd yn teimlo bod y cofnod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn oedd wedi digwydd ar y diwrnod. Roedd yn dymuno iddo gael ei nodi ei fod wedi atal rhag pleidleisio ar y cofnod arbennig hwn.

- 16 Mawrth, 2010 (Arbennig)

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim i'w ddatgan.

## 3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD, AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TALEDIG

Fe wnaeth y Cadeirydd ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion, gyfleu ei ddymuniadau gorau am adferiad buan i'r Cynghorydd Eurfryn Davies yn dilyn ei arhosiad diweddar yn yr ysbyty.

Dymunwyd dymuniadau gorau ar ran y Cyngor i Mr. Ross Morgan, Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol fyddai'n ymddeol yn y dyfodol agos. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch yn bersonol i Mr. Morgan am ei gydweithrediad a'i gefnogaeth yn ystod tymor ei swydd.

Llongyfarchwyd Mr Albert Owen ar gael ei ail ethol yn Aelod Seneddol dros Ynys Môn.

Roedd y Cynghorydd W.J. Chorlton hefyd yn dymuno llongyfarch Mr. Albert Owen, A.S. ar ei lwyddiant dros yr ymgyrch ddiwethaf. Roedd yn dymuno dweud hefyd bod Mr Ross Morgan wedi bod yn swyddog ardderchog i'r Awdurdod hwn ac fe ddymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Estynnwyd dymuniadau gorau i rai fyddai'n cystadlu yn 'Eisteddfod Môn' a hefyd yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron yn ystod Wythnos y Sulgwyn.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd y byddai diwrnod y Lluoedd Arfog yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn 19 Mehefin 2010.

Ar nodyn mwy trist, cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth diweddar Mr Iorwerth Rowlands, Biwmares (cyn Aelod o'r Cyngor Bwrdeistref) a hefyd yr Anrhydeddus Henadur O.E. Hughes. Ar ran y Cyngor roedd am fynegi ei gydymdeimlad llwyraf gyda'r ddau deulu.

Roedd hefyd am gydymdeimlo gydag unrhyw Aelod neu Aelod staff oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn distawrwydd fel arwydd o'u parch.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ar ran y Grwpiau Gwleidyddol, bod y rhestr o gynrychiolwyr oedd i wasanaethu ar Gyrff Allanol y Cyngor yn agos iawn i gael ei chwblhau ac fe fyddai yna drafodaethau pellach dros yr ychydig ddyddiau nesaf er mwyn cael cytundeb llwyr ar ei chynnwys.

**4 CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeiseb yn unol â pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

1

**5 NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR**

**5.1 PWYLLGOR SAFONAU**

(a) Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill, 2010, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"Bod 3 Chynghorydd Sir yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau a'u bod yn cael eu penodi ar unwaith tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol cyffredin nesaf i Gyngor Sir Ynys Môn sy'n dilyn y penodiad hwn (Mai 2012). Y tri Chynghorydd i'w henwebu yw:-*

*Y Cynghorydd J. Arwel Roberts*
*Y Cynghorydd Ieuan Williams*
*Y Cynghorydd John Penri Williams*

*Rhoi awdurdod i swyddogion wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor gan gynnwys "Erthygl 9 - y Pwyllgor Safonau" a hefyd i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau."*

(b) Cyflwynwyd - Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010 yn y cyswllt hwn, yn amodol ar i enw'r Cynghorydd J Penri Williams gael ei newid am enw'r Cynghorydd T Lloyd Hughes.**

**5.2 YCHWANEGIAD I'R ATODIAD I 3.5 - CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION**

(a) Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill, 2010, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"Newid y Cyfansoddiad trwy ychwanegu at yr Atodiad y ddeddfwriaeth a nodwyd yn yr adroddiad.*

*Yn amodol ar gyfarwyddyd y Gweinidogion Cymreig, newid y Cyfansoddiad trwy ychwanegu at yr atodiad y ddeddfwriaeth y manylir arni yn yr adroddiad i'r Atodiad."*

(b) Cyflwynwyd - Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010 yn y cyswllt hwn.**

**5.3 RHAN 8**

**(a)** Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill, 2010, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"Mabwysiadu Rhan 8, fel y cafodd ei drafftio yn Atodiad C yr Adroddiad yng Nghyfansoddiad y Cyngor.*

*Gwneud y newidiadau i'r Protocol Aelodau/ Swyddogion fel y manylir arnynt yn Atodiad CH yr adroddiad.*

*Awdurdodi swyddogion i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor gan gynnwys Rhan 8 a'r newidiadau i'r Protocol Aelodau / Swyddogion."*

(b) Cyflwynwyd - Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010 yn y cyswllt hwn.**

**5.4 PWYLLGORAU SGRIWTINI A THROSOLWG**

(A) Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 7 Mai, 2010, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"Gwahodd y Cyngor Sir i benderfynu:-*

*1. Bydd 5 o Bwyllgorau Sgriwtini a Throsolwg a'u henwau fydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden, Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol a Phwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo ac y bydd pob un ohonynt yn cael ei ddisgrifio fel Pwyllgor Sgriwtini.*

*2. Bydd cylch gorchwyl pob un o'r Pwyllgorau fel sy'n cael ei nodi yn Atodiadau A i D yn olynol ac fe fydd yna Grwp Llywio o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini.*

*3. Bydd cylch gorchwyl o gyfarfodydd bob 6 wythnos i bob Pwyllgor Sgriwtini a nifer yr aelodau ar bob Pwyllgor fydd 10 gyda 12 ar y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.*

*4. Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fydd â'r hawl i alw penderfyniadau i mewn ac fe all unrhyw 5 aelod o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith alw penderfyniad i mewn.*

*5. Bydd y cyfyngiadau ar alwadau i mewn yn union fel y maent ar hyn o bryd yn y Cyfansoddiad ym mharagraff 4.5.16.8 ond dim ond ar gyfer yr un Pwyllgor Sgriwtini sydd â'r pwer i alw i mewn, sef y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.*

*6. Dileu'r ddau Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Archwilio a throsglwyddo'r cyfrifoldebau fel a ganlyn:-*

*6.1 Cyfrifoldebau'r Is-Bwyllgor Llywodraethu a Rheoli Risg i'w cymryd gan y Pwyllgor Archwilio ei hun;*

*6.2 Cyfrifoldebau'r Is-Bwyllgor Canolbwyntio ar y Cwsmer i'w trosglwyddo i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.*

*7. Cymeradwyo'r newidiadau a ddisgrifir uchod ac awdurdodi swyddogion i wneud yr holl ddiwygiadau angenrheidiol a chanlyniadol i'r Cyfansoddiad.*

*8. Bod y Cyngor llawn yn derbyn adroddiad erbyn mis Medi ar yr hwyraf ynghylch ymarferoldeb cynnal cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau y tu allan i oriau swyddfa.*"

(b) Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim fel ei cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Mai, 2010.

Gofynnodd y Cynghorydd C.Ll. Everett a oedd y Tîm Rheoli Corfforaethol wedi ystyried sut yr oeddynt yn mynd i gael yr adnoddau a sut yn union i wasanaethu'r strwythur pwyllgorau newydd?

Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim bod swm o £400k wedi'i osod o'r neilltu yng nghyllideb y flwyddyn hon er mwyn adeiladu capasiti Corfforaethol i ymateb i'r math hwn o faterion. Byddai adroddiad yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith yn awgrymu rhai gwelliannau i'r tîm sgriwtini swyddogion seiliol. Roedd hyfforddiant a datblygu hefyd yn digwydd o fewn yr adrannau fel eu bod yn gallu cefnogi sgriwtini yn well.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 7 Mai, 2010 yn y cyswllt hwn.**

## 6 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid).

Adroddwyd - Yn dilyn y newidiadau diweddar yn aelodaeth y Grwp Annibynnol Gwreiddiol, roedd y Cyngor yn awr angen adolygu ei drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau'r Cyngor.

Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd tabl yn dangos y cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau'r Cyngor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Roedd y tabl yn dangos y pump grwp 17,8,5,3 a 3 Aelod yn olynol a 4 Aelod Digyswllt. Roedd manylion o'r Strwythur Pwyllgor Newydd wedi'u rhestru ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.

Yn ystod trafodaethau diweddar gan Arweinwyr Grwp fe drafodwyd a ddylai'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Pwyllgor Trwyddedu gael yr un aelodaeth yn union ac felly yr un nifer o aelodau. I allu gwneud hyn, roedd bwriad i newid nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Trwyddedu o 15 i 14. Roedd yn rheidrwydd cyfreithiol i gael Pwyllgor Trwyddedu pwrpasol ac ar wahân.

Ni allai pob grwp gwleidyddol ar y Cyngor ond dyrannu'r seddau roedd yn ei dderbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodau ei hun ac ni allant ddyrannu i Gynghorydd nad yw'n Aelod o'r grwp gwleidyddol hwnnw.

**PENDERFYNWYD**

- **Newid nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Trwyddedu o 15 i 14.**

- **Nodi'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol newydd a nifer y seddau oedd ar gael i bob Grwp ac i'r Aelodau Digyswllt o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.**

- **Cytuno ar y rhifau cyfan o seddau oedd i'w dyrannu i'r Aelodau Digyswllt ond, gan gymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Aelodau hynny, yr Arweinwyr Grwp i gael awdurdod i gyfarfod er mwyn penderfynu'r dyraniad o bob un o'r seddau hynny i'r aelodau digyswllt unigol.**

- **Gofyn i'r Arweinwyr Grwp ddarparu rhestr o enwau eu cynrychiolwyr grwp ar bob Pwyllgor i Reolwr Gwasanaethau Pwyllgor heb fod yn hwyrach na bore dydd Iau 13 Mai 2010 fel y ellir gwneud trefniadau i baratoi rhestr derfynol o aelodaeth pob pwyllgor cyn y cyfarfodydd i ethol cadeiryddion ac is-gadeiryddion i Bwyllgorau'r Cyngor ar 20 Mai 2010.**

## 7 TREULIAU'R AELODAU

Adroddwyd er gwybodaeth gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) - Ym Mehefin 2009, fe ofynnodd y Cyngor am adroddiad ar dreuliau'r Aelodau dros y tair blynedd ddiwethaf.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Cyngor heddiw yn dadansoddi'r cyfanswm cost i'r Awdurdod yn codi o dreuliau teithio a chynhaliaeth yr Aelodau. Nid oedd hwn yr un fath â'r ffigyrau oedd wedi'u cynnwys yn y tabl o lwfansau oedd wedi'i gyhoeddi'n flynyddol eisoes, oherwydd nid oedd y tabl hwnnw ond yn cynnwys symiau a hawliwyd ac a daliwyd i'r aelodau'n uniongyrchol. Roedd y dadansoddiad presennol yn dangos cyfanswm y gost oedd yn daladwy o'r fantolen, a'r prif wahaniaeth oedd bod hwnnw'n cynnwys y gost a dalwyd gan yr Awdurdod

yn hytrach na'r un oedd yn cael ei hawlio gan yr Aelodau. Roedd y manylion am ganlyniad yr ymarfer i'w weld yn Nhabl 1 - 6 yr adroddiad.

Y prif fater a nodwyd gan y dadansoddiad hwn oedd bod cyfanswm treuliau teithio a chynhaliaeth yr Aelodau oedd yn cael ei ddangos, yn sylweddol uwch na'r swm gyhoeddwyd fel lwfansau aelodau : roedd y cyfanswm dros y cyfnod o dair blynedd yn 32% yn uwch na'r cyfansymiau oedd wedi'u cyhoeddi. Nid oedd hyn yn ddim ond canlyniad ymarfer gweinyddol, ond fe allai fod yna ddiddordeb cyhoeddus yn y ffaith honno. Roedd deuddeg o aelodau nad oeddynt wedi hawlio unrhyw dreuliau o gwbl yn y cyfnod hwn, ac er bod hynny weithiau yn adlewyrchu lle roeddynt yn byw ac amgylchiadau eraill, nid oedd amheuaeth bod yna rai eraill allai fod wedi hawlio costau teithio ond iddynt ddewis peidio â gwneud hynny.

1

Er nad oedd y flwyddyn ddinesig a'r flwyddyn ariannol yn cydredeg, roedd y prif gyfrifoldebau yn y flwyddyn ddinesig berthnasol wedi'u nodi yn nhablau 2 i 4. Fel y byddai disgwyl, roedd mwy o dreuliau yn disgyn ar y rhai oedd gyda chyfrifoldebau uwch.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8 <u>CYNLLUN LWFANSAU'R AELODAU</u>

Adroddwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) - Bod y cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 16 Mawrth wedi ystyried adroddiad gan y Panel Cyflogau Annibynnol dros Gymru a phenderfynwyd, inter alia:-

"*i dderbyn y symiau canlynol o lwfansau am 2010-11 tra bo'r strwythur pwyllgorau presennol yn parhau yn ei le a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cyffredinol blynyddol y Cyngor yn nodi unrhyw newidiadau fydd eu hangen i'r strwythur pwyllgorau ...*"

Roedd adroddiad ar wahân ar y rhaglen yn manylu ynglyn â newidiadau arfaethedig i strwythur y pwyllgorau ac os caent eu newid, o dan amodau'r penderfyniad blaenorol, byddai'r cynllun lwfansau yn disgyn oni bai ei fod yn cael ei fabwysiadu unwaith yn rhagor.

Fodd bynnag, nid oedd yn hanfodol newid cynllun Lwfansau'r Aelodau, oherwydd ei fod yn ddigon hyblyg i dderbyn newid yn nifer y pwyllgorau sgriwtini a throsolwg gan nad oedd lwfans bellach yn cael ei dalu i'r is-gadeiryddion. O fewn cyfanswm o 20 o lwfansau, roedd yn bosibl talu 10 aelod o'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu, Archwilio, Arweinydd yr Wrthblaid a hyd at chwech o bwyllgorau sgriwtini a throsolwg. Byddai unrhyw ddyblu-i-fyny yn lleihau nifer y lwfansau fyddai'n cael eu talu. Roedd yn cael ei argymell bod graddfeydd y lwfansau'n cael eu cadarnhau am weddill y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cyfraddau'r lwfansau fel yr oeddynt i'w gweld yn y tabl yn yr adroddiad am weddill blwyddyn ariannol 2010/11, gyda'r newidiadau canlynol:-**

**(i) dileu'r lwfans i Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu,**

**(ii) newid y lwfans sy'n daladwy i Gadeirydd y Cyngor Sir i £8,304 a bod y swm a delir i Is-Gadeirydd y Cyngor Sir yn parhau ar £5,121.**

## 9 CYNLLUN GWEITHREDU I DDOD AG YMYRRAETH LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I BEN

Adroddwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim - Pwrpas yr adroddiad hwn oedd amlinellu'n gliriach pa gamau oedd ar ôl i'r Cyngor eu cymryd gan awgrymu ffyrdd y gallai'r Aelodau gymryd mwy o ran yn y broses gan bod hynny yn angenrheidiol ar gyfer newid cynaliadwy.

Roedd cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud ers y cyfarfod o'r Cyngor ym Mawrth ac roedd 5ed adroddiad y Bwrdd Adfer i'r Gweinidog wedi dweud bod pethau ar wella. Roedd manylion am y camau a gymerwyd yn barod yn Atodiad A o'r adroddiad. Yn Atodiad B yr adroddiad roedd llythyr y Gweinidog dyddiedig 4 Mawrth, 2010 yn amlinellu'r hyn yr oedd yn ei ddisgwyl gan y Cyngor gyda thargedau clir ar gyfer eu cyflawni erbyn 11 Mai.

Yn amodol ar y penderfyniadau fyddai'n cael eu gwneud heddiw, byddai llawer o'r gofynion hyn gan y Gweinidog eisoes wedi'u bodloni. Lle nad oedd y gofynion yn glir neu lle nad oeddynt i fyny â'r amserlen yng nghyswllt cynaliadwyaeth, roedd y rhain wedi'u trafod gyda swyddogion LlCC a'r Bwrdd Adfer ac roedd cytundeb arnynt.

Roedd Atodiad C o'r adroddiad ar gael yn swyddfa'r Rheolwr-gyfarwyddwr yn grynodeb lefel uchel o'r gweithredu oedd angen ei wneud o hyd (manylir ym Mharagraff 3 o'r adroddiad).

Roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim yn awr yn teimlo ei bod yn briodol i sefydlu trefniadau mwy ffurfiol i gael ymwneud yn ehangach gyda'r Cyngor gyfan a chyflawni newid cynaliadwy. Roedd yna nifer o grwpiau / pwyllgorau oedd â rôl ond roedd yn cael ei gynnig y dylid sefydlu grwp llywio. Roedd y trefniadau ar gyfer hyn yn cael sylw ym Mharagraff 4 o'r adroddiad hwn.

Byddai'r Grwp Llywio Adferol gyda'r rôl o fonitro cynnydd cyffredinol yn erbyn yr holl brosiectau oedd yn y Cynllun Adfer gan roi sicrwydd i'r Cyngor y byddai'r prosiectau yn cyrraedd yr amcanion a'r canlyniadau oedd yn cael eu ceisio. Roedd manylion am yr uchod i'w gweld ym Mharagraff 4 o'r adroddiad.

Roedd y Grwp Datblygu Aelodau hefyd yn allweddol a byddai eu cynlluniau'n helpu i ddeall y rolau a'r cyfrifoldebau ehangach gan sicrhau bod gan yr holl Aelodau gyfle i gyfrannu tuag at foderneiddio'r Cyngor.

Byddai'r Grwp Llywio'n adrodd yn ôl ym mhob cyfarfod o'r Cyngor i roddi sicrwydd i'r Cyngor bod y Cynllun Adfer wedi'i flaenoriaethu yn gywir a bod digon o adnoddau a bod yr amserlenni a'r canlyniadau'n cael eu cyflawni. Roedd Cylch Gorchwyl posibl i'w weld yn Atodiad D o'r adroddiad. Nid oedd y Grwp Llywio na'r Grwp Datblygu Aelodau yn Bwyllgorau ffurfiol o'r Cyngor.

Ar yr agenda hefyd roedd cynnig y dylid cael gweithdy i'r holl Aelodau ar y Cynllun Gwella Perfformiad. Un rhan allweddol o'r cynllun hwnnw fyddai'r camau oedd yn cael eu cymryd i gefnogi'r adferiad. Byddai'r gweithdy yn gyfle pellach i aelodau allu datblygu'r cynllun gweithredu.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r cynnydd sylweddol hyd yma fel yr oedd wedi'i amlinellu yn Atodiad A i'r adroddiad ac yn amodol ar y penderfyniad a gymerir mewn llefydd eraill ar yr agenda, i gynghori Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu i'r Gweinidog yn pwysleisio'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn perthynas â'i lythyr ar 4 Mawrth;**

- **Bod Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol unigol ar y Cyngor yn ymateb yn gadarnhaol erbyn 30 Mehefin, 2010, i adroddiad y Gweinidog eu bod yn cyhoeddi eu gwerthoedd a'u blaenoriaethau eu hunain a bod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro'r Cyngor yn casglu'r rhain at ei gilydd i'w dosbarth er gwybodaeth i holl aelodau'r Cyngor.**
-
- **Cymeradwyo'r trefniadau cyffredinol gyda'r Grwp Llywio a'r penderfyniadau oedd eu hangen fel yr oeddynt i'w gweld ym Mharagraff 4 o'r adroddiad ac i nodi y byddai aelodaeth y Grwp Llywio Adferol yn cael ei benderfynu dros yr ychydig ddyddiau nesaf yn dilyn trafodaeth rhwng Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol;**

- **Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gofyn i'r Grwp Llywio ystyried pa gamau pellach ellir eu cymryd mewn perthynas â'r pryderon a fynegwyd gan y Bwrdd Adfer fel yr oeddynt i'w gweld ym Mharagraff 3 o'r adroddiad, ac yn benodol pa gamau pellach y gall y Cyngor eu cymryd i helpu i symud rhai Aelodau oddi wrth agweddau a ffyrdd o weithio a wrthbrofwyd ac oddi wrth faterion a gwrthwynebiadau'r gorffennol.**

- **Bod seminar yn cael ei drefnu i'r holl Aelodau i adolygu a datblygu'r cynllun gweithredu fel rhan o Gynllun Gwella cyffredinol y Cyngor.**

Oherwydd ei fod yn cael ei enwi yn yr adroddiad, roedd y Cynghorydd E Schofield yn dymuno dweud wrth y Cyngor nad oedd mwyafrif y Grwp Annibynnol Gwreiddiol, ac yntau yn aelod ohono yn wreiddiol, yn gwybod bod yr Arweinydd a'r Arweinyddion Grwpiau wedi dod i gytundeb ynglyn â'r enwebiad arfaethedig i Gadair y Prif Bwyllgor Sgriwtini ar y pryd.  Y cyfan yr oedd ef wedi'i wneud yn y cyfarfod hwnnw oedd cyfleu enwebiad gwreiddiol y Grwp.  Gofynnodd am iddo gael ei gofnodi - cyn i'r Bwrdd Ymyrryd ddod i mewn, ei fod ef wedi cynnig a chefnogi'r bwriad i roi Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Sgriwtini i'r Wrthblaid.  Roedd hefyd yn dymuno dweud ei fod yn hollol gefnogol i waith da yr Arweinydd gyda'r hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni o fewn y Cyngor.  Gofynnodd iddo gael ei nodi nad oedd yr un o'r sylwadau yr oedd wedi'u gwneud yn y Siambr heddiw wedi cael eu gwrthod.

Tynnu sylw'r Cyngor wnaeth y Cynghorydd P S Rogers at y llythyr diweddar gan y Cynghorydd G O Parry, MBE gyda chynnwys y llythyr hwnnw wedi cael ei ddatgelu yn ddiweddar yn y Wasg ac roedd y Cynghorydd Rogers yn credu ei fod yn dod a gwarth ar y Cyngor.  Cyfeiriodd hefyd at y gwariant dianghenraid yn cynnal ymchwiliad i mewn i'w gais cynllunio ef ei hun a bod yr haeriadau a wnaed yn ei erbyn yn rhai hollol gelwyddog.  Roedd yn credu bod yr Ombwdsmon yn wastraff hollol ar amser ac arian cyhoeddus oherwydd iddo gymryd hyd at 2 flynedd i ddod i unrhyw fath o benderfyniad.

Mewn ymateb dywedodd y Cynghorydd G O Parry, MBE ei fod wedi ysgrifennu llythyr preifat i Gynghorydd ar yr Awdurdod hwn.  Doedd yna ddim math o ymgyrch i danseilio'r Arweinydd nac unrhyw un arall nac i geisio gwneud niwed i'r Cyngor hwn mewn unrhyw ffordd.

**10 Y CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL**

Adroddwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim - O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru), 2009, roedd angen i'r Cyngor gyhoeddi Cynllun Gwella mor fuan ag a oedd yn ymarferol ar ôl 1 Ebrill, 2010 i gynnwys amcanion Gwella'r Awdurdod.  Roedd blaenoriaethau strategol newydd y Cyngor y cafwyd ymgynghori helaeth arnynt yn ddiweddar yn darparu sail ar gyfer llunio'r Cynllun Gwella yn seiliedig ar flaenoriaethau cynllun busnes.

•

Roedd angen i aelodau gael rhan ar sail ehangach yn natblygu cynllun gweithio lefel uchel y Cyngor yn dilyn gwaith cychwynnol ar siapio blaenoriaethau strategol yn ystod y 6 mis diwethaf. Roedd yn cael ei gynnig felly y dylid trefnu gweithdy i'r holl Aelodau yn fuan ym mis Mehefin i'r pwrpas hwn. Byddai hyn yn caniatáu i ganlyniadau gael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Cyngor llawn yn hwyrach y mis hwnnw. At hynny, byddai angen datblygu rhaglenni gwaith Pwyllgor i gynnwys trefniadau ar gyfer monitro a sgriwtineiddio'r Cynllun Gwella yn ystod 2010/11.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r sefyllfa bresennol gyda datblygu Cynllun Gwella'r Cyngor;**

- **Awdurdodi Swyddogion i wneud trefniadau i alw gweithdy yn ystod Mehefin 2010 ar Raglen Waith y Cyngor;**

- **Nodi'r angen i drefnu cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Mehefin 2010 i ystyried y Cynllun Gwella.**

**11 CCA - GWERTHUSIAD CYMERIAD ARDAL GADWRAETH CEMAES**

Adroddwyd gan y Deilydd Portffolio Cynllunio - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill, 2010 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"cymeradwyo'r Gwerthusiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Cemaes a chefnogi cyflwyno'r ddogfen i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn i'w fabwysiadu fel Canllaw Cynllunio Atodol.*

Cyflwynwyd - Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith ar 27 Ebrill, 2010 yn y cyswllt hwn.**

**12 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I RANBARTHAU ETHOLIADOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

(a) Cyflwynwyd - Llythyr dyddiedig 30 Mawrth 2010 gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yn dweud eu bod yn barod i fynychu cyfarfod er mwyn derbyn sylwadau ar eu Cynigion Drafft. (Roedd hyn wedi digwydd ar 30 Ebrill, 2010). Roedd y Comisiwn yn barod i ymestyn y cyfnod sylwadau hyd at ddyddiad y cyfarfod hwn.

(b) Adroddwyd yn llafar gan Arweinydd y Cyngor - Ar ddydd Gwener, 30 Ebrill 2010, fe gyfarfu pedwar o gynrychiolwyr o'r Comisiwn Ffiniau gyda chynrychiolwyr y Cyngor. Mynegwyd pryderon i'r Comisiwn nad oedd y Cyngor yn cefnogi wardiau aml-aelod. Soniwyd hefyd am adolygu Wardiau Cymunedol cyn adolygu wardiau Sirol. Mewn ymateb fe ddywedodd y Comisiwn eu bod wedi ysgrifennu i'r Cyngor yn 2006/07 yn argymell bod angen gwneud gwaith ar ffiniau cymunedol cyn yr adolygiad presennol.

Nid oedd y cyfan o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau hyd yn hyn ac felly nid oedd yn bosibl newid y trefniadau hynny ar hyn o bryd.

Roedd y Comisiwn hefyd yn gwrthod yr argraff a roddwyd bod ceisiadau cynllunio oedd wedi'u caniatau heb eu hystyried yn rhai o'r argymhellion oedd wedi dod yn ôl o'r Comisiwn.

Mynegwyd pryderon hefyd wrth y Comisiwn y gallai lleihau nifer y Wardiau ddod â phwysau ar y Cyngor i lenwi y seddau ar y Pwyllgor Sgriwtini a Throsolwg. Crybwyllwyd hefyd y ffiniau oedd yn cael eu hargymell oedd yn torri ar draws cymunedau ac yn uno cymunedau Cymreig a Saesnig.

Roedd gan nifer o'r aelodau awgrymiadau am ffyrdd o wella'r patrwm oedd wedi'i gyhoeddi. Fe nodwyd y rhain gan y Comisiwn a byddai pob ymateb yn cael ei hystyried gan wneud argymhelliad terfynol i'r Gweinidog. Byddai gan y Cyngor 6 wythnos i ymateb unwaith y byddai'r cynllun wedi'i gyhoeddi. Fe'i gwnaethpwyd yn glir i'r Aelodau nad oedd peidio â newid yn opsiwn, ond bod ffigwr o oddeutu 1450 yn cael ei ystyried i bob ward.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa.**

## 13 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynwyd - Adroddiad blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fel sy'n ofynnol drwy Baragraff 3.4.8.1.1. (ix) o'r Cyfansoddiad am y flwyddyn ddinesig 2009/10.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y nifer o gyfarfodydd oedd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn a hefyd y gwaith sylweddol oedd wedi cael ei wneud i hyfforddi Aelodau ac i ddatblygu rôl y Pwyllgor. Byddai'r Pwyllgor yn cymryd o ddifrif yr angen i ddatblygu ei rôl fel Pwyllgor annibynnol ac amhleidiol, a byddai angen i'r holl Gynghorwyr a'r Grwpiau Gwleidyddol barchu'r rôl honno.

Cymerodd y Cadeirydd gyfle i ddiolch i'r Is-Gadeirydd am ei gefnogaeth ac hefyd i Swyddogion yr Adran Gyllid ac Archwilio Mewnol. Diolchodd i Mrs Ann Holmes, Swyddog Pwyllgor am y gwaith ardderchog yr oedd wedi'i wneud yn cadw cofnodion y Pwyllgor. Roedd gwaith staff cefnogol y Pwyllgor weithiau'n cael ei gymryd yn ganiataol. Heb eu gwaith caled hwy fe fyddai holl broses llywodraeth leol yn dod i stop. Yn yr un modd, roedd gwaith y Gwasanaeth Cyfieithu i'w ganmol.

## 14 DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth - Adroddiad gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim yn gosod allan unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo yn ymwneud â swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith wnaed gan yr Arweinydd ers cyfarfod Cyffredinol diwethaf (Rheol 4.4.1.4 o Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith yn y Cyfansoddiad).

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 15 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Cynghorydd J.V. Owen, un o gynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 20 Chwefror, 2010 a 31 Ebrill, 2010.

Adroddwyd - Bod yr Awdurdod Tân wedi derbyn ymateb cadarnhaol yn dilyn y gwaith siecio Iechyd a Diogelwch diweddar. Dywedodd bod ganddynt lawer iawn llai i boeni amdano nag Awdurdodau Tân eraill. Byddai unrhyw faterion a nodwyd yn derbyn sylw. Talodd deyrnged i gyn aelodau'r Pwyllgor hwn oedd wedi gwasanaethu ar yr Awdurdod Tân ac yn arbennig y fenter lle gwelwyd defnydd yn cael ei wneud o Orsaf Tân Rhyl fel cyfleuster cymunedol ac roedd hynny wedi derbyn canmoliaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pwysleisiodd ar yr Aelodau i sicrhau bod eu hetholwyr yn cymryd mantais o'r gwaith siecio diogelwch tân am ddim i gartrefi a diolchodd i'r aelodau rheini o'r Awdurdod Tân am wneud y gwasanaeth gwerthfawr hwn. Os byddai unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau byddai'n eu hanfon ymlaen i'r Awdurdod Tân i gael ymateb ysgrifenedig.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

## 16 AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd P.S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 20 Chwefror, 2010 a 31 Ebrill, 2010.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rogers i'r Aelodau nad oedd wedi gallu mynd i lawer o'r cyfarfodydd ers ei adroddiad diwethaf i'r Cyngor, a hynny oherwydd rhesymau iechyd. Fodd bynnag, roedd yn bwriadu ail ddechrau ei ddyletswyddau ddydd Gwener nesaf yn eu cyfarfod chwarterol.

Gofynnodd y Cynghorydd G.O. Parry, MBE, ynglyn â thynged y 'car bobi' oedd wedi bod yn rhywbeth defnyddiol iawn ar gyfer dod â phobl ifanc i gysylltiad gyda'r Heddlu a hefyd fel arf P.R. Roedd ar ddeall i'r cerbyd gael ei fandaleiddio'n enbyd. Gofynnodd hefyd a oedd yr Awdurdod Heddlu wedi gwneud defnydd o gwmni diogelwch allanol i ddiogelu gorsafoedd yr heddlu ac os felly, ar ba gost?

Wrth ymateb dywedodd y Cynghorydd P.S. Rogers mai car o dramor oedd y 'car bobi' ac nad oedd un arall wedi dod yn ei le oherwydd bod costau'r partiau iddo'n uchel. O safbwynt diogelwch, fe ddigwyddodd hyn tra roedd Pencadlys yr Heddlu ym Mae Colwyn yn cael ei adnewyddu lle roedd diogelwch preifat wedi'i ddefnyddio oherwydd ei bod yn llawer rhatach i ddod â gweithwyr diogelwch o'r tu allan yn hytrach na gorfod defnyddio eu swyddogion eu hunain ar sail 24 awr.

Gofynnodd y Cynghorydd C.Ll. Everett i'r Cynghorydd Rogers gyfleu ei ddiolch i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, gan bod yr ystadegau ar gyfer datrys rhai troseddau ar yr Ynys ymysg rhai o'r goreuon yng Nghymru a hyd yn oed yn well na rhai o luoedd Heddlu'r DU.

Diolchodd y Cynghorydd P.S. Rogers i'r Cynghorydd Everett am ei eiriau yn canmol ac fe fyddai'n cyfleu'r neges i'r Awdurdod Heddlu.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:30 pm

**Y CYNGHORYDD O. GLYN JONES**
**CADEIRYDD**